# Rheoli eich gwaith yn y diwydiannau creadigol

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â gweithio yn y diwydiannau creadigol a hyrwyddo eich hun a’ch gwasanaethau i gyflogwyr neu gontractwyr posibl.

Mae gofyn ichi feddu ar ddealltwriaeth dda o sut i hyrwyddo eich llwyddiannau, meithrin eich cysylltiadau a rhwydweithiau ymhellach, a sicrhau eich bod yn meddu ar y sgiliau a’r wybodaeth ddiweddaraf.

Gellir defnyddio’r safon hon ynghlwm â phob rôl yn y diwydiannau sgrin ac mae hefyd yn berthnasol i rolau diwydiant creadigol ehangach fel enghraifft theatr, digwyddiadau byw, treftadaeth ddiwylliannol a galwedigaethau dylunio.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. sicrhau caiff eich gwaith ei gyflwyno ar amser a’i fod yn bodloni’r briff
2. cyfathrebu gydag eraill a gofyn am gymorth pan fo’i angen
3. asesu problemau a dod o hyd i ddatrysiadau i gyflawni’r allbynnau a ddymunir
4. adolygu gwaith gydag eraill a defnyddio adborth i ddiwygio gwaith pan fo angen
5. addasu i newidiadau o ran gwaith, gofynion creadigol a datblygiadau technegol
6. adnabod pryd y bydd newidiadau y gofynnir amdanyn nhw yn cael effaith andwyol ar y gyllideb, graddfeydd amser, y canlyniad terfynol neu rannau eraill o’r gwaith a chyfathrebu hyn
7. cadw a darparu gwaith yn ôl yr angen
8. cynnal cyfrinachedd yn unol â deddfwriaethau, rheoliadau a gweithdrefnau’r sefydliad
9. cyfeirio gwaith sydd y tu hwnt i’ch maes arbenigedd at bobl eraill
10. sicrhau eich bod yn ymwybodol o arferion y diwydiant sy’n dod i’r amlwg a newidiadau mewn technoleg

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddehongli gofynion y briff
2. y biblinell neu'r llif gwaith a sut mae eich rôl chi a rolau eraill yn berthnasol iddo
3. sut y gall fod angen i'ch rôl a'ch cyfrifoldebau newid i ymdrin â gofynion gwahanol ddarnau o waith
4. goblygiadau newidiadau ar y gyllideb a'r adnoddau rydych chi ynghlwm â nhw
5. sut i geisio a gweithredu ar adborth i wella eich gwaith
6. sut i addasu llif gwaith neu biblinellau a chynllunio datrysiadau i ymdrin â newidiadau
7. sut i weithio fel rhan o dîm
8. sut i adnabod pryd y mae modd ail-ddefnyddio neu addasu syniadau neu waith blaenorol
9. sut i gadw gwaith
10. goblygiadau'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau sy'n ymdrin â Diogelu Data
11. cyfyngiadau'r adnoddau a'r dechnoleg rydych chi'n eu defnyddio yn eich rôl
12. y ffynonellau gwybodaeth am ddatblygiadau yn y diwydiant

SKSCMGS3

Rheoli eich gwaith yn y diwydiannau creadigol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSGS3 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithwyr Proffesiynol Cynhyrchu Sain (Ffilm a Theledu), Gweithwyr proffesiynol ôl-gynhyrchu, Y Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi, Gweithwyr Proffesiynol Animeiddio, Y Cyfryngau a chyfathrebu, Crefftau, y celfyddydau creadigol a dylunio, Y Celfyddydau Perfformio, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt y Cyfryngau, Gweithwyr Proffesiynol Gemau, Gweithwyr Proffesiynol Cyfryngau Rhyngweithiol, Galwedigaethau Marchnata Digidol, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Marchnata, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Dylunio;, Gwasanaethau Technegol a Dosbarthu (Ffilm a Theledu), Gweithwyr Proffesiynol Effeithiau Arbennig Corfforol, Rolau Cymorth Technegol ar gyfer Recordio Sain a Thechnoleg Cerddoriaeth |
| **Cyfres/Set** | Sgiliau Cyffredinol y Cyfryngau Creadigol |
| **Geiriau Allweddol** | rheoli gwaith; gofynion creadigol; briff; adborth; diogelu data; diwydiannau creadigol; |